

Gwybodaeth i Gleifion

Prawf Maes

Uned Llygaid

Prawf Maes Gwelededd...

Pam fod prawf “maes” yn cael ei gynnal?

Mae’r Doctor wedi gofyn i chi gael prawf “maes” i helpu gyda diagnosis a thriniaeth.

Beth yw prawf “maes”?

Prawf sy’n mapio eich maes gwelededd.

Beth sy’n digwydd yn ystod y prawf?

Byddwch yn eistedd wrth beiriant ac yn wynebu cromen wedi’i goleuo.

Bydd y llygaid yn cael eu profi yn eu tro, gyda phad dros un llygaid.

Mae golau bychan yng nghanol y gromen y mae’n rhaid i chi barhau i edrych arno.

Gallwch amrantu fel arfer yn ystod y prawf. Wrth edrych ar y golau, bydd golau arall un ai’n llai neu’n fwy llachar yn fflachio o gwmpas y gromen.

Bob tro rydych yn gweld golau arall, byddwch yn pwyso botwm y mae’r peiriant yn ei gofnodi, a bydd y canlyniadau’n cael eu hargraffu.

Pa mor hir fydd y prawf?

Mae’r prawf yn para oddeutu hanner awr. Bydd apwyntiad penodol ar gyfer hyn ac hefyd apwyntiad yn y clinig.

A oes angen i fi ddod ag unrhyw beth?

Oes, dylech ddod â’ch sbectol darllen neu sbectol arall os oes gennych rai.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y prawf “maes” gofynnwch i aelod o staff fydd yn fodlon helpu.

O ble caf ragor o gyngor?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch ag:-

Adran Cleifion Llygaid Allanol:-

Rhif Ffôn:- 01633 2656268

Rhwng 8.30am a 5.00 pm

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”.**